OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 178 (Cy.29)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *31 Ionawr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Chwefror 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 87 a 100 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993(**1**) i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**) a chan ei fod wedi'i fodloni bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer cyhoeddi'r cod a gymeradwywyd gan y Gorchymyn hwn, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) (Cymru) 2006 a fe ddaw i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran rheoli pob eiddo preswyl yng Nghymru.

### Cymeradwyo cod ymarfer

**2.** Mae'r *Rent Only Residential Management Code* (ISBN 184219 2094), a gyflwynwyd i'w gymeradwyo ar 6 Hydref 2005 gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ac sydd i'w gyhoeddi gan RICS Business Services Limited, wedi'i gymeradwyo.

### Tynnu cymeradwyaeth yn ôl

**3.** Mae'r gymeradwyaeth o'r *Rent Only Residential Management Code* (ISBN 085406 642 X) a roddwyd gan Orchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) 1996(**3**) wedi'i thynnu'n ôl.

(**1**) 1993 p. 28; diwygiwyd adran 87 gan adran 150 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15) ac Atodlen 9 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87 a 100, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac adran 177 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**3**) O.S. 1996/2839.

**Darpariaeth drosiannol**

**4.** Nid yw erthyglau 2 a 3 yn gymwys at ddibenion adran 87(7)(a) a (b) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (defnyddio cod mewn achos cyfreithiol) o ran gweithred neu anwaith sy'n digwydd cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Ionawr 2006

(**4**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Drwy'r Gorchymyn hwn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo cod ymarfer sy'n ymwneud â gwaith rheoli eiddo preswyl gan landlordiaid ac eraill sy'n cyflawni'r swyddogaeth reoli. Y *Rent Only Residential Management Code* (ISBN 184219 2094) yw'r cod a gymeradwyir ac mae i'w gyhoeddi gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Drwy'r Gorchymyn hwn mae'r Cynulliad hefyd yn tynnu'n ôl y gymeradwyaeth a roddwyd yng Ngorchymyn Cymeradwyo Codau Ymarfer ar gyfer Rheoli (Eiddo Preswyl) 1996, (O.S. 1996/2839), i god sy'n dwyn yr enw *Rent Only Residential Management Code* (ISBN 085406 642 X).

Mae adran 87(7) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 yn darparu nad yw methiant â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth mewn cod ymarfer a gymeradwyir yn peri ynddo'i hun i unrhyw berson fod yn agored i unrhyw achos cyfreithiol yn ei erbyn, ond bod y cod ymarfer, mewn unrhyw achos cyfreithiol yn dderbyniol fel tystiolaeth ac y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n ymddangos ei fod yn berthnasol i unrhyw gwestiwn sy'n codi yn yr achos cyfreithiol yn cael ei chymryd i ystyriaeth.

Mae'r cymeradwyo a'r tynnu'n ôl y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn hwn yn gymwys i waith rheoli pob eiddo preswyl yng Nghymru ac yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth drosiannol yn erthygl 4.